

Croeso i Gors y Llyn

Mae Cors y Llyn yn cario'i hanes yn ei henw. Ar un adeg, roedd yr ehangder cyfareddol hwn o gorsydd a chorstiroedd yn llyn. Roedd y ddau fasn sy'n ffurfio craidd y warchodfa'n wreiddiol wedi'u cerfio gan rewlifoedd yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf a gwnaethan nhw lenwi â dŵr tawdd. Dros filoedd o flynyddoedd, cafodd y basnau eu llenwi'n raddol gan lystyfiant, cerrig a phridd, gan greu'r cynefinoedd cyfoethog a chymysg a welwch chi heddiw.

Coedwig gorachaid Sgandinafaidd

Mae'r ddau fasn bellach yn cynnal amrywiaeth o lystyfiant sy'n dwli ar asid, gyda thoreth o fwsoglau cors, grug, llugaeron, grug croesddail a'r gwlithlys. Ar yr ymylon, byddwch hefyd yn gweld llafn y bladur. Mae gan y basn deheuol ei gymeriad neilltuol ei hun: mae pinwydd yr Alban yma wedi'u rhwystro rhag tyfu, fel pinwydd Sgandinafaidd, oherwydd y mawn llawn dŵr. Mae rhai o'r coed dros 100 oed, ond dim ond ychydig o droedfeddi o uchder! Mae rhuban o fedw a ffen yn amgylchynu'r gors.

Welcome to Cors y Llyn - the 'Bog of the Lake'

Cors y Llyn bears its history in its name. What is now a fascinating expanse of bog and fenland was once a lake. The two basins which form the core of the reserve were originally carved out by glaciers during the last Ice Age and filled with meltwater. Over thousands of years, they gradually became choked with vegetation, stones and earth, to create the rich, mixed habitats you see today.

A Scandi-style dwarf forest

The two basins now support a range of acid-loving plant-life, with abundant bog-mosses, ling, cranberry, cross-leaved heath and the insectivorous round-leaved sundew. At the edges, you will also find patches of bog asphodel. The southern basin has its own distinctive character: the Scot's pine here is severely stunted, Scandinavian style, because of the water-logged peat. Some trees are over 100 years old yet only a few feet tall! A ribbon of birch wood and fen surrounds the bog.

Beth i edrych amdano

Dôl Ryfeddol ar gyfer Blodau Gwyllt

Ychydig i'r chwith o'r llwybr y tu hwnt i'r gjât, cadwch olwg am ddôl fach iawn ond arbennig iawn. A fydddech chi'n credu bod hon ymysg y dolydd â'r cyfoeth gorau o flodau sydd ar ôl yn y canolbarth? Mae dros 100 o wahanol flodau wedi eu cofnodi yma, gan gynnwys tegeirian brych y rhos, hesgen lwydlas, cycyllog bach ac ystrewlys, y dywedir y bydd ei ddail nid yn unig yn cynhyrchu powdr tisian effeithiol ond hefyd yn lleddfu'r ddannoedd ac yn hel pryfed ymaith. Os ydych yn ymweld pan nad yw'n dymor yr haf, bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl!

Mwyniant Mursennod a Gweision y Neidr

Ger y pwll, yn yr haf, fe welwch arddangosiad lliwgar o fursennod a gweision y neidr, gan gynnwys rhai mawr megis yr ymerawdwr a gwas neidr y de. Ac os ydych chi'n lwcus, efallai cewch y fraint brin o weld hebog yr ehedydd yn eu hela.

Paill yn adrodd yr hanes

Yn ddwfn o dan rafft simsan o hesg a mwsoglau mae haenau o baill yn cofnodi'r holl newidiadau i'r dirwedd dros 10,000 o flynyddoedd. Mae Cors y Llyn fel dyddiadur byw o'n gorfennol ac felly mae'n safle daearegol o gryn bwys. Mae band o baill a ganfuwyd yma'n dangos y dystiolaeth gyntaf o dyfu yd yn yr oes Neolithig gynnar yng nghanolbarth Cymru.

What to look out for

Fantastic Meadow for Wildflowers

Just to the left of the path beyond the gate, look out for a very small but very special meadow. Would you believe this is amongst the best flower-rich meadows remaining in mid-Wales? Over 100 flowering plant species have been recorded here, including heath-spotted orchid, carnation sedge, lesser skullcap and sneezewort, whose leaves, it is said, will not only yield an effective sneezing powder but will also relieve toothache and repel insects. If you are visiting outside summer you must come back!

Dragonfly and Damselfly Delights

Near the pond, in summer, you'll experience a colourful display of damselflies and dragonflies, including some larger ones like the emperor and the southern hawkler. And if you're in luck, you might have the rare privilege of spying a hobby, catching these insects on the wing.

Pollen tells the story

Bands of pollen, lying deep under the shaly raft of sedges and bog mosses, show how this landscape has changed over the last 10,000 years. One of these bands revealed the first evidence of growing cereals in early Neolithic times in central Wales. Cors y Llyn is like a living diary of our past and therefore a very significant geological site.



gwlithlys sundew

ymerawdwr emperor dragonfly

pumalen y gors marsh cinquefoil

Rydych yma
You are here



Llwybr Cors y Llyn

Cors y Llyn Walk

Hygyrch
Pellter: ¼ milltir/1.2km
Amser: ¼ awr

Accessible
Distance: ¼ mile/1.2km
Time: ¼ hour

Dilynwch y llwybr hygyrch sydd o'ch blaen i fwynhau Cors y Llyn, gan orffen gyda llethr ysgafn nôl at y maes parcio. Mae seddi a manau pasio ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Gallwch hefyd archwilio'r caeau o fewn y warchodfa, ond cadwch at y llwybrau os gwelwch fod cnwd gwafr yn tyfu - neu mae'n bosibl y bydd da byw yn pori yno.

UCHAFBWYNTIAU:

- Darganfyddwch y warchodfa wastad hon - sy'n hygyrch i bawb - ar ei llwybrau pren sydd wedi'u gorchuddio â rhwyll
- Rhyfeddwch at doreth o flodau gwyllt yr haf yn y ddôl
- Chwiliwch am y goedwig binwydd corachaid
- Synnwch at yr amrywiaeth o weision y neidr a mursennod lliwgar yn yr haf
- Sylwch ar y coetiroedd corsio ar hyd y llwybr pren
- Edrychwch am wybedog brith, tingoch a thelor y coed - y triawd sy'n ymweld â choetiroedd derw Cymru yn ystod yr haf.

HIGHLIGHTS:

- Discover this level reserve - accessible to all - on its mesh-covered paths and boardwalks
- Be amazed at the profusion of summer wildflowers in the meadow
- Seek out the Scandinavian-style dwarf pine forest
- Be dazzled by the range of colourful dragonflies and damselflies in summer
- Take in the swampy woodlands along the boardwalk
- Look out for pied flycatchers, redstarts and wood warblers - the Welsh oak woodland summer visiting trio.



tegeirian brych y rhos
heath spotted orchid



Llwybr Pren | Boardwalk

ER MWYN EICH DIOGELWCH CHI:

- Mannau corslyd â llystyfiant sy'n arnofio dros bylchau dwfn ag ochrau serth - cadwch at y llwybr pren a'r llwybrau.
- Dŵr agored dwfn - cadwch i ffwrdd.
- Mae da byw yn pori rhannau o'r warchodfa - peidiwch â mynd atynt neu geisio eu bwydo nhw. Cadwch gŵn dan reolaeth dynn a sicrhewch eich bod yn cau'r giatiau y tu ôl i chi.

FOR YOUR SAFETY:

- Boggy areas with floating vegetation over deep steep-sided pools please keep to the boardwalk and paths.
- Areas of deep open water - keep away.
- Livestock graze parts of the reserve - do not approach or try to feed them. Keep dogs under close control and please shut gates behind you.